Cynllun Dull y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM)

NMae Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn mynnu nawr bod datblygiadau newydd ar gyfer adeiladau amhreswyl o bwys yn cyflawni "Da Iawn" o dan y cynllun BREEAM (safon gydnabyddedig a luniwyd i wella cynaliadwyedd cyffredinol datblygiad newydd o dan un fframwaith), a chyflawni safon "Ragorol" ar gyfer lleihau Allyriadau Carbon (mynegai carbon o 40). Ystyr 'o bwys' yw un ai adeilad gydag arwynebedd llawr o 1000m2 neu ragor neu safle o 1 hectar neu ragor.

Mae'r pwyntiau isod yn helaethu ar ofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru i symud ymlaen tuag at ragor o adeiladu cynaliadwy a Di-garbon yng Nghymru fel sy'n ofynnol gan Nodyn Cyngor Technegol (Drafft) (TAN) 22 a Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog (MIPPS) 01/09 Cynllunio ar gyfer Adeiladu Cynaliadwy'.

Ar gael mewn fformatau hygyrch ar gais

Mae'r nodyn hwn wedi ei fwriadu ar gyfer ei ddarllen ar y cyd ag Adran 2 'Cynaliadwyedd Amgylcheddol' o Daflen Wybodaeth y Cyngor ar Ddatganiadau Dylunio a Mynediad (DDM). Mae'r canlynol yn amlinellu'r lefel isaf o wybodaeth sy'n ofynnol fel rhan o DDM dilys wrth gyflwyno cais ffurfiol neu drafodaethau cyn cais.

BREEAM

Mae'r Cynllun yn mesur perfformiad cynaliadwyedd adeilad yn erbyn y 10 categori dylunio sydd wedi eu rhestru isod:

1) Rheoli
2) Iechyd a lles
3) Ynni
4) Cludiant
5) Dŵr
6) Defnyddiau
7) Gwastraff
8) Defnyddio tir ac ecoleg
9) Llygredd
10) Arloesi

Dyfernir credydau o dan is-benawdau ym mhob categori dylunio yn ôl perfformiad. Yna cyfunir y credydau hyn a'u pwysoli i roi un sgôr gyffredinol ar raddfa Llwyddo, Da, Da Iawn, Rhagorol ac Eithriadol. Er mwyn cyflawni Da Iawn mae angen sgorio o leiaf 55% ynghyd â safonau lleiaf penodol mewn agweddau arbennig.

Lleihau Allyriadau Carbon

Ar ben hyn, mae MIPPS 01/09 wedi codi'r lleihad lleiaf mewn allyriadau carbon i safon "Ragorol" am leihau Allyriadau Carbon (mynegrif CO_2 - EPC graddfa 40). Asesir yr elfen hon trwy'r Cynllun o dan yr is-bennawd categori dylunio Ynni Ene1.

Er mwyn cyflawni lleihad mewn allyriadau carbon dylai'r cynllun geisio gweithredu'r hierarchaeth ynni (gweler ffigwr 1). Mae'r dull hwn o weithredu yn gallu bod yn gymorth i gyflawni ffynonellau ynni Isel eu Carbon a Di-garbon (LZC)

Mae'r canllawiau BREEAM yn cynnwys llawlyfrau asesydd ar gyfer y mathau canlynol o adeilad: Llysoedd, Addysg, Diwydiannol, Gofal Iechyd, Carchardai, Swyddfeydd, Adwerthu ac Aml-breswyl. Mae dull hefyd ar gyfer asesu adeiladau nad ydynt yn perthyn i'r categorïau hyn.

Gofynion Cais - Yr hyn y mae'n rhaid i'ch Datganiad Dylunio a Mynediad ei gynnwys:

Y cam trafod cyn y cais:

- *Argymhellir bod safle y gellid ei ddatblygu yn cael ei gofrestru a phenodi asesydd BREEAM;*
- *Crynodeb cyn asesu. Dylai'r crynodeb cyn asesu roi manylion y modd y bydd credydau yn cael eu cyflawni o dan bob un o'r 10 categori dylunio BREEAM;**
- *Manylion yn y DDM rhagarweiniol sy'n disgrifio'r modd y mae cyflawni gofynion y Cynllun wedi effeithio ar y drefn a'r cynllun posibl:*
- *Gwybodaeth/manylion cyntaf y modd y bydd y cynllun yn cyflawni'r lleihad gofynnol mewn allyriadau carbon, gydag ystyriaeth i egwyddorion yr hierarchaeth ynni.***

Ffigwr 1 Hierarchaeth Ynni



Ffynhonnell: Nodyn Cyngor Technegol (Drafft) 22 Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009): Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy.

www.breeam.org

Ceisiadau Amlinellol:

- *Manylion yr asesydd BREEAM a rhif cofrestru'r safle;*
- *Crynodeb cyn asesu manwl. Er y gallai materion sy'n ymwneud â chynllun a golwg fod yn a gadwyd yn ôl, mae'n rhaid i'r crynodeb cyn asesu ddangos bod modd cyflawni graddfa Dda Iawn o dan y Cynllun ar gyfer y safle a'r cynllun; **
- *Manylion yn y DDM sy'n disgrifio'r modd y mae cyflawni gofynion y Cynllun wedi effeithio ar leoliad posibl y safle, dylunio, graddfa, cynllun ac ati;*
- *Datganiad yn y DDM ynghylch y modd y bydd y dyluniad yn cyflawni safon "Ragorol" am leihau Allyriadau Carbon (mynegrif CO2 - EPC graddfa 40). Dylai'r datganiad hwn roi ystyriaeth i egwyddorion yr hierarchaeth ynni. Os oes ffynonellau LZC yn yr arfaeth dylid cyflwyno crynodeb o'r astudiaeth ddichonoldeb LZC. ***

*Disgwylir y gallai rhai elfennau o'r cyn-asesiad newid o'r cam cyn-cais ac amlinellol i'r cam materion a gadwyd yn ôl/cais llawn a dylid nodi unrhyw newidiadau yn y DDM.

** Os yw mathau o ynni Isel eu Carbon a Di-garbon i'w defnyddio, dylid cynnal Astudiaeth Ddichonoldeb Ynni LZC oherwydd ei fod yn gallu ennill credydau ychwanegol yn y cynllun. Dylid paratoi'r astudiaeth ddichonoldeb gan arbenigwr ynni annibynnol a'i chynnal cyn gynted ag y bo modd cyn cyflwyno cais.

Mae'n rhaid i'r DDM ar gyfer cais amlinellol, llawn ac a gadwyd yn ôl gynnwys crynodeb o'r astudiaeth (yn dibynnu ar yr amser y cynhaliwyd yr astudiaeth). .

Ceisiadau Materion a Gadwyd yn Ôl (lle rhoddwyd caniatâd amlinellol ar neu wedi'r 1 Medi 2009) a Llawn:

- Manylion yr asesydd BREEAM a rhif cofrestru'r safle;
- Crynodeb cyn asesu manwl. Er y gallai materion sy'n ymwneud â chynllun a golwg gael eu cadw'n ôl, mae'n rhaid i'r crynodeb cyn asesu ddangos bod modd cyflawni graddfa Dda Iawn o dan y Cynllun ar gyfer y safle a'r cynllun; *
- Datganiad clir yn y DDM ynghylch y modd y gweithredwyd i leihau allyriadau carbon trwy weithredu'r hierarchaeth ynni: Dylai'r datganiad hwn gynnwys:
  - *Ymrwymiad i ateb a ffefrir,*
  - *Crynodeb o ganlyniadau'r astudiaeth o ddichonoldeb ynni Carbon Isel a Di-garbon - Os nad yw dewisiadau Isel eu Carbon a Di-garbon wedi eu cynnig, egluro pam.*
  - *Camau a ddilynwyd i ddefnyddio ynni yn fwy effeithlon,*
  - *Camau a ddilynwyd i ddefnyddio llai o ynni, a*
  - *Chysylltiadau gyda'r darluniau/cynlluniau sy'n dangos y modd a lle mae atebion wedi eu cynnwys.*

Mae'r cynllun BREEAM yn helpu i leihau niwed i'r amgylchedd trwy hyrwyddo dulliau mwy cynaliadwy o adeiladu a dulliau mwy cynaliadwy o fyw yn sgil hynny. Mae cyflawni graddfa Dda Iawn yn golygu y bydd cynaliadwyedd wedi ei gynllunio yn rhan o'r cynllun a dylai hyn fod yn amlwg yn y Datganiad Dylunio a Mynediad.

Wedi rhoi caniatâd cynllunio bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gofyn am gyflwyno 'Tystysgrif Tros Dro' (cam dylunio) i gadarnhau y bydd graddfa "Dda Iawn" o leiaf wedi ei chyflawni, ac y bydd 6 o gredydau o dan Ene 1 wedi eu cyflawni. Yn dilyn hyn a chyn meddiannu adeilad o'r Cynllun am y tro cyntaf, bydd angen 'Tystysgrif Derfynol' (cam ôl-adeiladu).

Rhagor o Wybodaeth

Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk/cynllunio

Adeiladu Arbenigrwydd
www.constructingexcellence.org.uk

Sefydliad Ymchwil Adeiladu
www.bre.co.uk

BREEAM
www.breeam.org

Rheoliadau Adeiladu
www.communities.gov.uk

Y Porthol Cynllunio
www.planningportal.gov.uk

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r:

Adran Gynllunio,
Neuadd y Dref, Stryt y Lampint,
Wrecsam, LL11 1AR.

Ffôn: (01978) 292017
Ffacs: (01978) 292502

e-bost: planning@wrexham.gov.uk
www.wrexham.gov.uk

Tachwedd 2009